

PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-2021

CYNNWYS:

1. Rhagair gan y Cadeirydd
2. Aelodaeth y Panel
3. Ein swyddogaeth
4. Adolygiad o'r Flwyddyn
5. Ein hamcanion ar gyfer 2021-2022
6. Casgliad

1. Rhagair gan y Cadeirydd

Rwy'n falch iawn o gael cyflwyno trydydd Adroddiad Blynyddol Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Mae 2020-2021 unwaith eto wedi bod yn flwyddyn nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen. Mae'r pandemig Coronafeirws wedi rhoi straen enfawr ar bob rhan o gymdeithas ac mae'r heddlu wedi chwarae rhan fawr yn yr ymateb ynghyd â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a llywodraeth leol. Er gwaethaf y pandemig, mae fy nghydweithwyr a minnau wedi parhau i ymrwymo i sicrhau bod Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn atebol am berfformiad ei swyddogaethau statudol a'i gynorthwyo i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i'r cyhoedd. Unwaith eto, mae'r Panel wedi edrych nid yn unig ar blismona yn Nyfed-Powys, ond hefyd ar gylich gorchwyl ehangach y Comisiynydd mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynir a'i ddefnydd o'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo

Yn anochel, bu'n rhaid i'r Panel newid ei ffordd o weithio, gan ddisodli cyfarfodydd wyneb yn wyneb o amgylch ardal yr heddlu gyda chyfarfodydd rhithwir trwy Microsoft Teams a Zoom. Mae cyfarfodydd y Panel wedi parhau i gael eu gweddarlledu i hyrwyddo ymgysylltiad cyhoeddus.

Unwaith eto, rydym wedi edrych ar enghreifftiau o arfer gorau mewn manau eraill drwy rwydweithio â phaneli eraill ledled Cymru a Lloegr ac wedi tynnu sylw'r Comisiynydd at yr arferion hyn lle y bo'n briodol.

Mae diwedd y flwyddyn wedi cyd-daro ag union flwydd ers i'r pandemig coronafeirws ledu ac mae'n parhau i gael effaith heb ei thebyg ar fywydau pob un ohonom. Er bod y ffocws cenedlaethol wrth reswm ar y GIG ar yr adeg anodd hon, ni ddylid anghofio rôl yr Heddlu a gwasanaethau rheng flaen eraill. Felly, hoffwn i a'm cyd-aelodau dalu teyrnged unwaith eto i'r holl weithwyr allweddol, beth bynnag fo'u rôl, sydd wedi ymdrechu i gynnal y gwasanaethau hanfodol hynny yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt.



Y Cyngorydd Alun Lloyd-Jones

(Cadeirydd y Panel)

2. Aelodaeth y Panel

Bu un newid i aelodaeth y Panel yn ystod y flwyddyn, pan gymerwyd lle'r Cyngorydd Jim Jones o Sir Gaerfyrddin gan un o'i gyd-gynghorwyr ar Gyngor Sir Caerfyrddin, sef y Cyngorydd Emlyn Schiavone.

Ar ran fy nghyd-aelodau o'r Panel, hoffwn ddiolch i'r Cyngorydd Schiavone am ei gyfraniad gwerthfawr i waith y panel ers iddo gael ei benodi.

Roedd cyfnod swydd y ddau aelod annibynnol/cyfetholedig o'r Panel i fod i ddod i ben ym mis Hydref 2020. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig Coronafeirws, mae etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau a oedd wedi'u trefnu ar gyfer Mai 2020 wedi'u gohirio tan fis Mai 2021. Mae hyn yn golygu bod cyfnodau swydd aelodau annibynnol/cyfetholedig o'r Panel wedi cael eu hystyngiadau yn awtomatig i Hydref 2021 o ganlyniad.

Fel y soniwyd yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf, cafodd y pandemig Coronafeirws effaith sylweddol ar un o'n haelodau, y Cyngorydd William

Powell a fu yn yr ysbyty am gyfnod sylweddol ar ôl dal y firws. Diolch byth, fodd bynnag, mae'n ymddangos ei fod wedi gwella'n llwyr ac roeddwn i ynghyd â gweddill fy nghydweithwyr yn falch iawn o weithio gydag ef eto yn ystod y flwyddyn.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Aelodau'r Panel yn Atodiad 1.

3. Ein swyddogaeth:

Swyddogaethau Panel yr Heddlu a Throseddau yw;

1. Adolygu Cynllun Heddlu a Throseddau'r Comisiynydd.
2. Adolygu cyllideb ddrafft flynyddol y Comisiynydd, a'r pŵer i roi fetu ar lefel y praesept
3. Ymdrin â chwynion penodol ynghylch y Comisiynydd neu ei ddirprwy
4. Craffu ar benderfyniadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd.
5. Adolygu penodiad neu ddiswyddiad y Prif Gwnstabl a phenodiad rhai o staff uwch Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, sef unrhyw Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau, a Phennaeth Staff y Comisiynydd a'r Prif Swyddog Ariannol.
6. Cynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau statudol.
7. Lluo adroddiadau neu argymhellion i'r Comisiynydd.
8. Adolygu ymddygiad y Comisiynydd.

Dyma swyddogaethau statudol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

1. Pennu blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys.
2. Cyhoeddi cynllun yr heddlu a throseddau.
3. Ymgysylltu â chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ynghylch materion plismona.
4. Gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol.
5. Cefnogi dioddefwyr a dwyn pobl gerbron y Llysoedd.

6. Comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi pobl sy'n agored i niwed.
7. Penodi'r Prif Gwnstabl a'i ddiswyddo os bydd angen.
8. Ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn ymwneud â'r Prif Gwnstabl.
9. Sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol.
10. Pennu cyllideb flynyddol yr Heddlu a lefel y praesept.

Nid oes gan y Panel, na Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, unrhyw rôl o reoli gwaith plismona gweithredol Heddlu Dyfed-Powys. Cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yw Plismona Gweithredol.

4. Adolygiad o'r Flwyddyn:

Cynhaliodd y Panel 4 cyfarfod ffurfiol yn ystod y flwyddyn ynghyd ag un sesiwn friffio anffurfiol gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Cyfarfu is-grwpiau o aelodau'r panel ar wahân hefyd i ymgymryd â darnau gwaith manylach. Mae rhagor o wybodaeth am gyfarfodydd ffurfiol y panel ar gael ar wefan y Panel www.panelheddluathroseddudp.cymru drwy glicio ar y tab 'cyfarfodydd', y botwm 'dewiswch' ac yna dewis blwyddyn y cyfarfod rydych am chwilio amdano.

Crynodeb o'r Cyfarfodydd

Gorffennaf 2020

Hwn oedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Panel. Roedd y cyfarfod yn rhoi sylw i ymateb yr heddlu i'r Pandemig Coronafeirws, adroddiad blynyddol y Comisiynwyr a chraffu ar y datganiad cyfrifon ar gyfer 2019-2020.

Tachwedd 2020

Roedd y cyfarfod wedi canolbwyntio ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, ymateb yr heddlu i'r pandemig Coronafeirws a pherfformiad y Comisiynydd yn erbyn y Protocol Plismona.

5 Chwefror 2021

Roedd y cyfarfod wedi canolbwyntio ar osod praesept yr heddlu ar gyfer 2021-202 a'r problemau a ddaeth i law yn dilyn defnyddio gwersyll Penalun, Sir Benfro fel canolfan i geiswyr lloches.

17 Chwefror 2021

Roedd y cyfarfod wedi canolbwyntio ar fuddsoddiad sylweddol y Comisiynydd mewn teledu cylch cyfyng ar gyfer canol trefi, ei berfformiad yn erbyn y Protocol Plismona, a phenodi Prif Gwnstabl dros dro

Cwynion yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Rhaid i Banel yr Heddlu a Throsedd gofnodi unrhyw gŵyn yn erbyn y Comisiynydd sy'n dod i law. Fodd bynnag, dim ond pwerau cyfyngedig iawn sydd gan y Panel i ddelio â'r cwynion hyn ac ni all 'ymchwilio' i unrhyw gŵyn a wnaed. Mae'n ofynnol i'r Panel gyfeirio unrhyw gŵyn ddifrifol (h.y. cwyn am gamymddwyn troseddol) i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ac nid oes ganddo'r pŵer i orfodi'r Comisiynydd i gymryd unrhyw gamau adferol mewn perthynas â chwyn.

Yn ystod y flwyddyn, ni chofnododd y Panel gwynion gan y cyhoedd yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Blaenoriaethau'r Panel ar gyfer 2020-2021

Yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2019-2020, nododd y Panel 3 blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn ganlynol, yr oedd pob un ohonynt yn ymwneud â swyddogaeth statudol y Panel.

Felly, ein blaenoriaethau ar gyfer 2021-2020 oedd

| BLAENORIAETH 1 | YR AMCAN | BETH WNAETHOM NI? | CANLYNIAD |
|---|---|--|--|
| <p>Craffu ar Braesept yr Heddlu</p> <p>(Bu is-grŵp o aelodau'r panel, o dan gadeiryddiaeth y Cyngorydd Keith Evans yn arwain y mater hwn)</p> | <p>Sicrhau bod arian Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei reoli'n briodol a bod Praesept yr Heddlu'n rhoi gwerth am arian i drigolion Dyfed-Powys</p> | <p>Adolygu'r cyfrifon diwedd blwyddyn.</p> <p>Holi'r Comisiynydd am y cyfrifon hyn yn gyhoeddus.</p> <p>Cael sesiwn briffio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Swyddog Ariannol am sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys a'r galw sydd arno.</p> <p>Derbyn gwybodaeth am y gwasanaethau nad ydynt yn rhai'r heddlu a gaffaelir gan y Comisiynydd.</p> <p>Derbyn gwybodaeth gan y Prif Gwnstabl am bwysau cyllidebol mewn Seminar Cyllid.</p> <p>Cynnal gwrandawriad i ystyried y praesept arfaethedig</p> | <p>Daeth y Panel i'r casgliad bod lefel y praesept a gynigiwyd gan y Comisiynydd ar gyfer 2021-2022 yn briodol o ystyried yr holl amgylchiadau.</p> <p>Argymhellodd y Panel i'r Comisiynydd y dylai fwrw ymlaen â'r praesept hwnnw a chytunodd y Comisiynydd â'r argymhelliad hwnnw</p> |

| BLAENORIAETH 2 | YR AMCANION | BETH WNAETHOM NI? | CANLYNIAD |
|---|--|--|--|
| <p>TELEDU CYLCH CYFYNG</p> <p>(Bu is-grŵp o aelodau'r panel dan gadeiryddiaeth Mrs Helen Thomas yn arwain ar y mater hwn)</p> | <p>Deall yr effaith y mae buddsoddiad y Comisiynydd mewn teledu cylch cyfyng wedi'i chael ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Heddlu Dyfed-Powys, rheoli economi'r nos, gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a'r effaith ar ofn y cyhoedd o droseddau yn gyffredinol.</p> | <p>Gofyn i'r Comisiynydd ddarparu gwybodaeth benodol i'r Panel ynghylch y mater hwn.</p> <p>Gwahodd rhanddeiliaid allweddol eraill i roi eu barn i'r Panel.</p> <p>Gofyn am farn y cyhoedd.</p> <p>Chwilio am enghreifftiau o arfer gorau o fannau eraill.</p> | <p>Roedd y Panel yn fodlon fod y buddsoddiad mewn teledu cylch cyfyng yn cynrychioli gwerth da am arian a'i fod wedi bod yn fuddiol i bobl Dyfed-Powys.</p> <p>Awgrymodd y Panel i'r Comisiynydd y dylai fuddsoddi ymhellach mewn Teledu Cylch Cyfyng ar gyfer canol trefi os oes tystiolaeth yn awgrymu y byddai buddsoddiad o'r fath yn un gwerth chweil. Derbyniodd y Comisiynydd yr argymhelliad hwnnw.</p> |

| BLAENORIAETH 3 | YR AMCAN | BETH FYDDWN YN EI WNEUD | CANLYNIAD |
|---|--|--|---|
| <p>Ymgysylltu â'r cyhoedd</p> <p>(Bu is-bwyllgor dan Gadeiryddiaeth y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones yn arwain ar y mater hwn)</p> | <p>Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Panel, a gwella ymgysylltiad y cyhoedd â'r gwaith hwnnw.</p> | <p>Hyrwyddo ymhellach waith y Panel drwy we-ddarlledu a defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Cymryd camau pellach i ymgysylltu â'r elfennau hynny o'r cyhoedd nad ydynt yn gallu neu nad ydynt yn dymuno ymgysylltu ar-lein drwy ddefnyddio papurau newyddion lleol.</p> <p>Ymgysylltu'n benodol â grwpiau lleiafrifol.</p> | <p>Roedd Ymgysylltu â'r Cyhoedd, wrth reswm, wedi'u lesteirio gan y pandemig Coronavirus. Fodd bynnag, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ac ymatebodd 176 o bobl, cynnydd o 24% yn nifer yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymarfer ymgynghori blaenrol</p> |

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, roedd y Panel wedi:

- Cyhoeddi ei adroddiad ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a oedd wedi ei drosglwyddo o 2019-2020. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion ynghylch y Sbardun Cymunedol a gwybodaeth am Ymddygiad Gwrthgymdeithasolar wefan y Comisiynydd a derbyniodd y Comisiynydd yr argymhellion.
- Parhau i graffu ar y modd y gwnaeth y Comisiynydd ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif.
- Craffu ar yr holl benderfyniadau allweddol a wnaed gan y Comisiynydd gan gynnwys y rheini a oedd yn ymwneud â gwasanaethau a gomisiynir.

5. EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER 2021/2022

Mae'r Panel wedi penderfynu, yn ogystal â pharhau â'r blaenoriaethau presennol o ran pennu praesept yr heddlu a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Panel a'r ymgysylltu sy'n digwydd â'r Panel, y byddai hefyd yn blaenoriaethu archwiliad o'r dull a gymerodd y Comisiynydd o ran plismona ac iechyd meddwl.

Felly, ein blaenoriaethau ar gyfer 2022-2021 fydd:

| BLAENORIAETH 1 | YR AMCAN | BETH FYDDWN YN EI WNEUD | CANLYNIAD BWRIADEDIG |
|--|---|---|---|
| <p>Craffu ar Braesept yr Heddlu</p> <p>(Bydd is-grŵp o aelodau'r panel, dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Keith Evans yn arwain y mater hwn)</p> | <p>Sicrhau bod arian Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei reoli'n briodol a bod Praesept yr Heddlu'n rhoi gwerth am arian i drigolion Dyfed-Powys</p> | <p>Adolygu'r cyfrifon diwedd blwyddyn.</p> <p>Holi'r Comisiynydd am y cyfrifon hyn yn gyhoeddus.</p> <p>Cael sesiwn briffio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Swyddog Ariannol am sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys a'r galw sydd arno.</p> <p>Derbyn gwybodaeth am y gwasanaethau nad ydynt yn rhai'r heddlu a gaffaelir gan y Comisiynydd.</p> <p>Derbyn gwybodaeth gan y Prif Gwnstabl am bwysau cyllidebol mewn Seminar Cyllid.</p> | <p>Bod lefel y praesept a osodir ar gyfer 2022-2023 yn briodol o ystyried yr holl amgylchiadau.</p> |

| | | | |
|--|--|---|--|
| | | Cynnal gwrandawriad i ystyried y praesept arfaethedig | |
|--|--|---|--|

| BLAENORIAETH 2 | YR AMCANION | BETH FYDDWN YN EI WNEUD | CANLYNIAD BWRIADEDIG |
|---|--|--|---|
| <p>Plismona ac Iechyd Meddwl</p> <p>(Bydd grŵp o aelodau'r panel, dan gadeiryddiaeth Mrs Helen Thomas, yn arwain y mater hwn)</p> | <p>Deall yr hyn y mae Cynllun yr Heddlu a Throseddu wedi'i ddweud am blismona ac iechyd meddwl, sut mae hyn wedi'i weithredu a'r effaith y mae wedi'i chael.</p> | <p>Gofyn i'r Comisiynydd ddarparu gwybodaeth benodol i'r Panel ynghylch y mater hwn.</p> <p>Gwahodd rhanddeiliaid allweddol eraill i roi eu barn i'r Panel.</p> <p>Chwilio am enghreifftiau o arfer gorau o fannau eraill.</p> | <p>I fodloni ein hunain bod y dull a gymerwyd gan y Comisiynydd yn cynrychioli arfer gorau ac yn fodd i ddiogelu'r rhai sy'n agored i niwed yn ardal yr heddlu.</p> |

| BLAENORIAETH 3 | YR AMCAN | BETH FYDDWN YN EI WNEUD | CANLYNIADAU BWRIADEDIG |
|--|--|--|---|
| <p>Ymgysylltu â'r cyhoedd</p> <p>(Bydd is-grŵp o aelodau'r panel dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones yn arwain y mater hwn)</p> | <p>Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Panel, a gwella ymgysylltiad y cyhoedd â'r gwaith hwnnw.</p> | <p>Hyrwyddo ymhellach waith y Panel drwy wddarlledu a defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Cymryd camau pellach i ymgysylltu â'r elfennau hynny o'r cyhoedd nad ydynt yn gallu neu nad ydynt yn dymuno ymgysylltu ar-lein drwy ddefnyddio papurau newyddion lleol.</p> <p>Ymgysylltu'n benodol â grwpiau lleiafrifol.</p> | <p>Bod y cyhoedd yn gwybod mwy am waith y Panel.</p> <p>Bod y cyhoedd wedi ymgysylltu â'r Panel i'w helpu i gyflawni ei swyddogaethau statudol.</p> |

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, bydd y Panel yn:

- Cefnogi'r Comisiynydd i ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu newydd yn dilyn etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2021 - mae'r Athro Ian Roffe, Is-gadeirydd y Panel wedi cytuno i arwain y mater hwn.
- Parhau i graffu ar y modd y mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif.
- Craffu ar yr holl benderfyniadau allweddol a wneir gan y Comisiynydd gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â gwasanaethau a gomisiynir.
- Craffu ar sut y mae'r Comisiynydd yn perfformio yn erbyn y Protocol Plismona
- Cynnal ymarfer recriwtio cyhoeddus ar gyfer 2 aelod cyfetholedig (annibynnol) o'r panel - bydd yr is-grŵp ymgysylltu â'r cyhoedd yn arwain ar hyn.

6. CASGLIAD

Fel y dywedais yn fy nghyflwyniad i'r adroddiad blynyddol hwn, mae 2020-2021 unwaith eto wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Panel.

Mae ymgysylltiad y cyhoedd â gwaith y Panel wedi cael ei groesawu ac wedi llywio ein hadroddiad yn uniongyrchol ar fuddsoddiad y Comisiynydd mewn teledu cylch cyfyng ar gyfer canol trefi a gyhoeddwyd ym mis Chwefror.

Mae effaith y Coronafeirws ar fywydau pawb wedi bod yn amlwg. O ran gwaith y Panel, mae cynnal cyfarfodydd o bell wedi bod yn llwyddiannus er gwaethaf yr heriau a gododd.

Mae diwedd blwyddyn y cyngor wedi cyd-daro ag ymddeoliad y Prif Gwnstabl Mark Collins ar ôl cyfnod hynod llwyddiannus yn y swydd. Hoffwn i a fy nghydweithwyr ddiolch iddo am ei holl ymdrechion gan ddymuno'r gorau iddo yn y dyfodol. Mae Mr Collins wedi cael ei olynu gan y Prif Gwnstabl Dros Dro Clare Parmenter sydd â chyfoeth o brofiad plismona gan gynnwys blynyddoedd lawer yn ardal heddlu Dyfed-Powys, rydym yn dymuno'n dda iddi yn ei rôl newydd ac yn edrych ymlaen at weithio gyda hi.



Mae'n rhaid i mi gloi drwy ddiolch a thalu teyrnged unwaith eto i'r holl weithwyr rheng flaen sydd wedi parhau i ddarparu'r gwasanaethau hanfodol hynny yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt yn ystod yr argyfwng hwn. Rwyf i a'm cyd-aelodau yn wirioneddol ddiolchgar am eu hymdrechion.

Y Cyng. Alun Lloyd-Jones

(Cadeirydd)



ATODIAD 1 - AELODAU PANEL YR HEDDLU A THROSEDDU

AELODAU PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

| ENW | CYNGOR | | MANYLION CYSWLLT |
|--------------------------------|-----------------|---|---|
| Y Cyngorydd John Prosser | SIR GAERFYRDDIN |  | 64 Springfields Llanelli Sir Gaerfyrddin. SA15 2DD 01554 403192 e-bost: JGProsser@sirgar.gov.uk |
| Y Cyng. KEN HOWELL | SIR GAERFYRDDIN |  | 'Penlan Fawr', Penyboyr, Felindre, Llandysul SA44 5JF 01559 370555 KenHowell@sirgar.gov.uk |

| | | | |
|--|------------------------|---|--|
| <p>Y Cynghorydd Jim Jones</p> | <p>SIR GAERFYRDDIN</p> |  | <p>'Tir Gof', 9 Heol Hen, Pump-hewl, Llanelli SA15 5HJ</p> <p>01269 860138</p> <p>TJJones@sirgar.gov.uk</p> |
| <p>Y CYNGHORYD D ALUN LLOYD- JONES</p> | <p>CEREDIGION</p> |  | <p>Murmur yr Ystwyth, 14 Maes Isfryn, Llanfarian, Aberystwyth, Ceredigion SY23 4UG</p> <p>01970 623661</p> <p>alun.lloydjones@ceredigion.gov.uk</p> |
| <p>Y Cynghorydd KEITH EVANS</p> | <p>CEREDIGION</p> |  | <p>'Deganwy', Sunny Hill, Llandysul SA44 4DT</p> <p>01559 362258</p> <p>keith.evans@ceredigion.gov.uk</p> |
| <p>Y Cynghorydd LLOYD EDWARDS</p> | <p>CEREDIGION</p> |  | <p>13 Maes Seilo, Penrhynoch, Ceredigion SY23 3FL</p> <p>07375498571</p> <p>lloyd.edwards@ceredigion.gov.uk</p> |
| <p>Y Cynghorydd DAVID EVANS</p> | <p>POWYS</p> |  | <p>Hafan Gymreig, Bryntirion Lane, Rhaeadr, Powys LD6 5LT</p> <p>01597 810298</p> <p>cllr.david.evans@powys.gov.uk</p> |

| | | | |
|--------------------------------------|------------|---|--|
| | | | |
| Y Cynghorydd Les George | POWYS |  | 'The Mill', Pontdolgoch, Caersws, Powys SY17 5JE 01686 688231 cllr.les.george@powys.gov.uk |
| Y Cynghorydd WILLIAM POWELL | POWYS |  | Middle Genffordd, Heol Penbont, Talgarth, Aberhonddu, LD3 0EH 07703 112113 cllr.william.powell@powys.gov.uk |
| Y Cynghorydd MICHAEL JAMES | SIR BENFRO |  | 'Bronllwyn', 7 Grove Terrace, Llandudoch SA43 3ER. 01239 614020 Cllr.mike.james@sirbenfro.gov.uk |
| Y Cynghorydd ROBERT SUMMONS | SIR BENFRO |  | 19 Stryd y Gorllewin, Rhosfarcad, Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 1JH 01646 600827 cllr.rob.summons@sirbenfro.gov.uk |

| | | | |
|---------------------------------------|-------------------------------|---|--|
| <p>Y Cyng. STEPHEN JOSEPH</p> | <p>SIR BENFRO</p> |  | <p>105 Heol Siarl, Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 2HW</p> <p>07789 685035</p> <p>cllr.stephen.joseph@sirbenfro.gov.uk</p> |
| <p>IAN ROFFE</p> | <p>AELOD CYFETHOLEDIG</p> |  | <p>Greenlands, Clarach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DT</p> <p>01970 820537</p> <p>i.roffe@btinternet.com</p> |
| <p>HELEN THOMAS</p> | <p>AELOD CYFETHOLEDIG</p> |  | <p>16 Maes Yr Ysgol, Peniel, Sir Gaerfyrddin. SA32 7BT</p> <p>01267 235824</p> <p>Helent072@gmail.com</p> |

